Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
—
National Assembly for Wales
Finance Committee

Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

14 Ionawr 2019

Annwyl Nick

**Cynigion cyllideb blynyddol cyrff a ariennir yn uniongyrchol**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn pryderu ers peth amser am y cynnydd yng nghyllid cyrff a ariennir yn uniongyrchol, o gofio bod llawer o wasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru yn wynebu toriadau helaeth a pharhaus mewn termau real. O ganlyniad, gofynnodd y Pwyllgor i'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol sicrhau nad yw eu cyllidebau yn fwy nag unrhyw newidiadau i grant bloc Cymru.

Yn ystod gwaith craffu diweddar y Pwyllgor ar y cyllid y gofynnwyd amdano ar gyfer 2019-2020, daeth yn amlwg fod cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn dehongli cynnydd yn y grant bloc yn wahanol. O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor i bennu terfyn o 1.6%, sy'n seiliedig ar y cynnydd tebygol ym mloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod yn hytrach na'r cynnydd ym mloc Cymru yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

At y dyfodol, mae'n amlwg y bydd cysylltu cyllidebau cyrff a ariennir yn uniongyrchol â chynnydd y grant bloc yn parhau i fod yn broblem oherwydd y gwahanol ffyrdd o ddehongli'r cynnydd ac amseru cyllidebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.  Caiff hyn ei gymhlethu ymhellach gan ddylanwadau eraill ar faint o gyllid sydd ar gael mewn unrhyw flwyddyn benodol, fel penderfyniadau polisi treth Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cyllid ychwanegol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

sy'n arwain at symiau dilynol i Gymru, ac Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU sydd ar y gweill yn 2019.

Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu'ch barn am y cyfarwyddyd a'r arweiniad y mae'n eu rhoi i gyrff a ariennir yn uniongyrchol wrth lunio amcangyfrifon ar gyfer y dyfodol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael ymateb erbyn dydd Gwener **22 Chwefror 2019**.

Os bydd angen unrhyw eglurhad pellach arnoch, neu wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â: Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6372, **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*